



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

**TEITL** Rheoliadau Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn a Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020

**DYDDIAD** 15 Hydref 2020

**GAN** Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**SO30C – OS a osodwyd gerbron Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn a Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020**

Mae Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig. Maent yn diwygio'r deddfwriaeth a ganlyn:-

### **Deddfwriaeth Ddomestig**

- Rheoliadau Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn a Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (Rheoliadau 2019), a
- Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio 2015

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Trosglwyddodd Rheoliadau 2019 swyddogaethau a oedd yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Roedd Rheoliadau 2019 hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer y swyddogaethau Gweinidogol hynny, mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliadau 2020 yn cynnwys un swyddogaeth newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ddilyffethair. Mae hyn yn benderfyniad ymarferol a wnaed i gydymffurfio â Phrotocolau Montreal a Gogledd Iwerddon (NIP), a hefyd mae'n adlewyrchu mai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) a Llu'r Ffiniau sy'n gyfrifol am yr adnoddau a'r arbenigedd yn y maes hwn. Pe bai NIP yn dod i ben, ni fydd y swyddogaeth hon bellach yn bodoli.

Mae cyflwyno darpariaethau i reoli mewnforynion ac allforynion ar ffin Prydain Fawr yn hytrach nag ar ffin y DU yn hanfodol i sicrhau bod integriti cwota a systemau trwyddedu nwyon wedi'u fflworeiddio neu sylweddau sy'n teneuo'r osôn Prydain a'r UE yn cael eu cynnal. Mae'n cydnabod bod symud nwyon wedi'u fflworeiddio a sylweddau sy'n teneuo'r osôn wedi'i eithrio rhag yr egwyddor o fynediad dirwystri'r farchnad ar gyfer masnach o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr, i sicrhau bod y DU yn parhau i gydymffurfio â'i rwymedigaethau rhyngwladol o dan Brotocol Montreal.

Mae'r swyddogaeth orfodi bresennol o fewn y DU wedi'u datganoli ym mhob maes ond am ddau (sy'n ymwneud â gwaredu a phŵer CThEM i ymafael yn nwyddau a'u cadw). Bydd y swyddogaethau gorfodi datganoledig hyn yn parhau, a bydd swyddogaeth gorfodi newydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei hychwanegu at y swyddogaethau gorfodi datganoledig presennol hyn. Mae swyddogaeth orfodi newydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn benodol i fewnforynion/allforynion dros ffin Gogledd Iwerddon/Prydain Fawr a fydd, at ddibenion cydymffurfio â'r protocol, yn cael ei thrin yn ffin ryngwladol hyn hytrach nag un fewnol. Yn ymarferol, cytunwyd y bydd y gwiriadau a gynhelir gan Lu'r Ffiniau ar Nwyon wedi'u Fflworeiddio a Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn ar ffin Gogledd Iwerddon/Prydain Fawr yn ddogfennol yn hytrach na'n ffisegol, a bydd asiantaethau gorfodi lleol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd yng Nghymru yn dal i chwarae rôl gorfodi. Er nad oes data manwl ar gael, credir mai ar nifer bach o nwyddau y bydd hyn yn effeithio.

Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer o hyd i sefydlu a gweithredu eu systemau eu hunain pe baent yn dewis gwneud hynny. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban yn bwriadu gweithredu systemau ar draws Prydain Fawr ar gyfer nwyon wedi'u fflworeiddio a sylweddau sy'n teneuo'r osôn, a fydd yn cael eu gweinyddu gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Bydd y trefniadau manwl y cytunwyd arnynt ar gyfer cydweithio hirdymor rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn sail i Fframwaith Cyffredin.

## **Diben y diwygiadau**

Gwneir Rheoliadau 2020 drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 8(1) ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi, ac adran 41(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2020.

Mae Rheoliadau 2020 yn cywiro diffygion sydd eu hangen i weithredu'r Protocol. Yn benodol, mae'n cyfyngu ar raddfa Rheoliadau 2019 o'r DU i Brydain Fawr, gan y bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i fod yn ddarostyngedig i Reoliadau'r UE o ran nwyon wedi'u fflworeiddio a sylweddau sy'n teneuo'r osôn o dan y Protocol. Bydd Rheoliadau 2019, fel y'u diwygir gan Reoliadau 2020, yn trosglwyddo pwerau a ysgwyddwyd yn flaenorol gan Gomisiwn yr UE i Loegr, yr Alban a Chymru.

Mae Rheoliadau 2020 yn cyflwyno darpariaethau i reoli symudiadau nwyon wedi'u fflworeiddio a sylweddau sy'n teneuo'r osôn rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Mae'r darpariaethau hyn yn diffinio y bydd y symudiadau hyn yn cael eu hystyried yn fewnforynion/allforynion at ddibenion masnach nwyon wedi'u fflworeiddio a sylweddau sy'n

teneuo'r osôn. Mae rheoli'r fasnach hon rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn hanfodol i gynnal integriti systemau nwyon wedi'u fflworeiddio a sylweddau sy'n teneuo'r osôn Prydain Fawr (a'r UE), ac i weithredu'r Protocol. Mae'n cefnogi ein gallu, felly, i fodloni rhwymedigaethau'r DU o dan Brotocol Montreal a chaiff ei gydnabod fel eithriad rhag yr egwyddor o fynediad dirwysr i'r farchnad ar gyfer masnach o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr.

Mae'r OSau a'r Memoranda Esboniadol, sy'n nodi effaith pob diwygiad, i'w gweld yma: <https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/dXJbyQy9/SI-2020/>

### **Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth o ran polisi. Mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau y bydd y llyfr statud yn parhau i weithio ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.